TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Fforwm Rhanbarthol TrC – Canolbarth a'r Gorllewin - TfW Regional Forum – Mid and West Wales

## 13 Mai 2021

## Adroddiad o'r cyfarfod

## Meeting report

# Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin

Cynhaliwyd cyfarfod y fforwm ar 13 Mai 2021, 10:00 – 12:00

### Yn bresennol

## Aelodau'r Fforwm

| | | |
|---|---|---|
| Wendy Abel | Swyddog Twristiaeth, Cyngor Sir Powys | |
| Jennifer Barfoot | Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol (CRP), SWW Connected | |
| David Beer | Uwch Reolwr Cymru, Transport Focus | |
| Tony Caine | Rheolwr Traffig a Theithio, Adran Briffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu, Cyngor Sir Powys | |
| Simon Charles | Rheolwr Strategaeth a Seilwaith Trafnidiaeth, Cyngor Sir Caerfyrddin | |
| Jane Cornelius | Swyddog Teithio Cynaliadwy, Prifysgol Abertawe | |
| Ann Elias | Swyddog Trafnidiaeth Strategol, Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru - Trafnidiaeth Strategol | |
| Samara Hicks | Cydgysylltydd Moderneiddio Trafnidiaeth - Isadran Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Cyngor Sir Gaerfyrddin | |
| Tegryn Jones | Parciau Cenedlaethol | |
| Chloe Lewis | Arweinydd Tîm, Strategaeth a Monitro Trafnidiaeth | |
| Thomas Lydon | Rheolwr Materion Cyhoeddus, Great Western Railway | |
| Amanda J Phillips | Rheolwr Rhaglenni a Chomisiynu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | |
| Cath Swain | Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig, Cyngor Abertawe | |
| Catherine Sweeney | Arweinydd Tîm, Strategaeth a Monitro Trafnidiaeth | |
| Mike Watson | HoWL | |
| Owen Williams | Rheolwr Masnachol, First Cymru Buses Ltd | |
| Liz Williams | Rheolwr Prosiectau a Swyddfa, Twristiaeth Sir Benfro | |
| Craig Evans | Cymdeithas Twristiaeth Sir Gaerfyrddin | |

## Siaradwyr

| | | |
|---|---|---|
| Ben George | Rheolwr Rhaglen Datblygu Strategol | 11:40-11:55 |
| Emily Coughlin | Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Network Rail | 10:25-10:50 |
| Hinatea Fonteneau | Pennaeth Prosiectau Gorsafoedd, Trafnidiaeth Cymru | 10:50-11:05 |
| Josh Hopkins | Rheolwr Gwydnwch Gweithredol, Trafnidiaeth Cymru | 10:25-10:50 |
| Matthew Breese | Rheolwr Brand, Trafnidiaeth Cymru | 10:25-10:50 |
| Arolygydd Richard Powell | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig | 10:25-10:50 |
| Tony Clayton | Tony Clayton, Rheolwr Prosiectau Datgarboneiddio, Trafnidiaeth Cymru | 11:05-11:20 |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Sharon Adams | Cyfarwyddwr Aelodaeth, Siambr Fasnach De Cymru |

| | |
|---|---|
| Zoe Antrobus | 4theregion (cynnal CRP) |
| Peter Austin | Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, Bargen Ddinesig Bae Abertawe |
| Julian Atkins | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Bannau Brycheiniog |
| David Bailey | Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid, Great Western Railway |
| David Beaney | Cadeirydd, Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr |
| Dr Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr Rhaglenni, Bargen Ddinesig Bae Abertawe |
| Stephen Crocker | Cadeirydd, Twristiaeth Bae Abertawe |
| Karleigh Davies | Rheolwr Twristiaeth, Ymweld â Chastell-nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| David Edwards | Cadeirydd, Cwmni Datblygu Rheilffordd Calon Cymru (cynnal CRP) |
| Geraint Flowers | Rheolwr Prosiect, Campws Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| Val Hawkins | Prif Weithredwr, Twristiaeth y Canolbarth |
| Dr Rhian Hayward MBE | Prif Swyddog Gweithredol, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth Cyf, Prifysgol Aberystwyth |
| Steve Hopkins | Rheolwr Twristiaeth a Marchnata, Cyngor Abertawe a Joio Bae Abertawe |
| Vincent Goodwin | Swyddog Teithio, Cyngor Powys |
| Dean Jeffrey | Rheolwr, Twristiaeth Bae Abertawe |
| Jane Jones | Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus Great Western Railway |
| Gwilym Dyfri Jones | Profost Campysau Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| Nick Lockley | Goruchwyliwr Gweithrediadau a Thocynnau, Stadiwm Liberty |
| Carl Milne | Rheolwr Porthladd, Stena Line (Abergwaun) |
| Dennis O'Connor | Rheolwr Cyswllt Twristiaeth, Twristiaeth Sir Benfro |
| Sharon Prosser | Llysgennad Cwsmeriaid y De, Great Western Railway |
| Chris Peake | Rheolwr Porthladd, Irish Ferries (Doc Penfro) |
| George Reid | Cyfarwyddwr, Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr |
| CCeri Rees | Cydgysylltydd Strategaeth a Phrosiectau Trafnidiaeth, Cyngor Sir Penfro |
| Bruce Roberts | Ysgrifennydd, Clwb Busnes Bae Abertawe |
| Michelle Roles | Rheolwr Rhanddeiliaid, Transport Focus |
| Ian Walsh | Pennaeth Ysgol, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |

## Nodyn gan y Cadeirydd, Arron Bevan-John

*"Roedd yn wych cael croesawu ein holl aelodau i bumed fforwm rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin. Hoffwn ddiolch i'n cyflwynwyr a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch cymunedol, ein cynllun gwella gorsafoedd, ein prosiect gwefru cerbydau trydan, yr ymgyrch farchnata ar gyfer adfer ar ôl COVID-19 a Metro Abertawe a'r De-orllewin. Yn ogystal â chlywed y newyddion diweddaraf am y rhain, cafodd yr aelodau y cyfle i gymryd rhan mewn sesiwn Holi ac Ateb gyda James Price, Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru. Diolch am roi o'ch amser ac am eich cyfraniadau amhrisiadwy."*

### Agenda

**1. Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd Arron Bevan-John aelodau'r fforwm i bumed cyfarfod Fforwm Rhanbarthol y Canolbarth a'r De-orllewin. Cyflwynodd Arron fformat y cyfarfod, gan gynnwys y defnydd o ystafelloedd trafod ynghyd â gwybodaeth am y ffordd rydym wedi addasu ein fforymau ar ôl yr arolwg i aelodau ei gwblhau. Hysbysodd Arron yr aelodau o'r negeseuon cyfredol ar gyfer Teithio'n Fwy Diogel ac o reolau Llywodraeth Cymru sydd dal i fod ar waith ar hyd a lled Cymru mewn perthynas â'r pandemig Covid-19.

**2. Sesiwn Holi ac Ateb gyda Phrif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru**

Atebodd James Price, y Prif Weithredwr, gwestiynau gan aelodau'r fforwm. Mynegodd Mike Watson bryderon am yr HoWL ac nad oedd yr amserlen lawn ar waith eto. Dywedodd James Price fod heriau mawr ar hyd a lled Cymru i gynyddu lefelau gwasanaethau oherwydd nifer y gyrwyr sydd ar gael, ac nad oes modd hyfforddi gyrwyr newydd oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol a threfn lanhau newydd. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd am gyfraniad TrC i fetro Bae Abertawe a'r De-orllewin. Siaradodd David Beer am y broblem nad oedd teithwyr yn talu am docynnau a gofynnodd pa gynlluniau oedd ar waith i ddiogelu refeniw a'i gwneud yn haws prynu tocynnau. Awgrymodd James Price fod sawl ffordd o gynyddu nifer y teithwyr â thocynnau er enghraifft, tapio i mewn ac allan, ap TrC, peiriannau TVM, Payzone yn ogystal ag ystyried eto a all casglwyr tocynnau werthu tocynnau ar drenau. Mae'r mentrau hyn yn cael sylw ar hyn o bryd. Awgrymodd Twristiaeth Caerfyrddin y byddai cymhellion ar gyfer teithio yn fuddiol. Nododd Lewis Brencher y byddwn yn trafod ein hymgyrch ar gyfer adfer ar ôl covid mewn sesiwn ddiweddarach ac y byddai'n gyfle da i awgrymu syniadau.

**3. Cadw'n Cymunedau'n Ddiogel**

Arweiniodd Josh Hopkins, Trafnidiaeth Cymru, Arolygydd Richard Powell, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac Emily Coughlin, Network Rail, drafodaeth ar y gwaith sydd gan TrC ar y gweill i gadw'r rheilffordd a'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach yn ddiogel i staff, cwsmeriaid a chymunedau. Fe wnaeth yr holl siaradwyr rannu gwybodaeth am eu gwaith partneriaeth er mwyn ymgysylltu â chymunedau.

Cymerodd cyfranogwyr y fforwm ran mewn sesiynau gweithdy er mwyn trafod themâu penodol:

***Trosedd - Gweithgarwch troseddol ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

- Pa droseddau sy'n bodoli ar y rhwydwaith trafnidiaeth?
- Beth fyddech chi'n ei wneud os byddech chi'n gweld trosedd ar y rhwydwaith trafnidiaeth?
- Ydych chi'n gwybod rhif ffôn testun Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig?
- Beth ellid ei wneud (ar wahân i gysylltu â'r heddlu) i leihau troseddu ar y rhwydwaith trafnidiaeth?

Roedd y trafodaethau'n cynnwys:
Cynyddu amlygrwydd staff a Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, cynyddu lefelau goleuo ar orsafoedd ynghyd â mwy o offer teledu cylch cyfyng a chynyddu gwybodaeth am ffyrdd o gysylltu â Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** ***Ymddygiad sy'n achosi braw neu ofid ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

- Beth sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol?
- Pwy sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol?
- Beth yw'r problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich ardal chi?
- Ydych chi'n gwybod am unrhyw grwpiau allweddol y dylem fod yn ymgysylltu â nhw?

Roedd trafodaethau'n cynnwys:
Cysylltu ag ysgolion a cholegau mewn ffordd gadarnhaol er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cydweithio a chynghorau ieuenctid lleol a chynyddu amlygrwydd staff

**Digwyddiadau ar y rheilffordd** ***Yn cynnwys tresmasu, camddefnyddio croesfannau a gweithgarwch sy'n anniogel ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

Roedd y trafodaethau'n cynnwys:
Addysgu twristiaid ac ysgolion ar ddiogelwch croesfannau, ymgyrchoedd y cyfryngau cymdeithasol a chydweithio â phartneriaethau lleol

**4. Cynllun Gwella Gorsafoedd**

Cyflwynodd Hinatea Fonteneau, Pennaeth Prosiectau Gorsafoedd, Raglen Gwella Gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru i wneud gwelliannau ac addasiadau i'r rhwydwaith o orsafoedd a reolir gan TrC ledled Cymru a'r Gororau. Cadarnhaodd Hinatea y byddai meysydd parcio newydd y gorsafoedd yn cynnwys mannau gwefru Cerbydau Trydan

**5. Gorsafoedd Gwefru Cerbydau Trydan**

Cyflwynodd Tony Clayton, Rheolwr Prosiectau Datgarboneiddio, Trafnidiaeth Cymru, brosiectau gwefru cerbydau trydan Cymru a'r Gororau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer yr holl rwydwaith ffyrdd a'r gorsafoedd ar hyd a lled rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Holodd David Beer ynghylch seilwaith. Atebodd Tony y byddwn yn cydweithio â'r Gweithredwr Pwyntiau Gwefru a ddewisir er mwyn defnyddio ei ddata modelu ar berchnogaeth, gwefru ac ymddygiad er mwyn darparu'r maint cywir o seilwaith. Yr hyn nad ydym am ei weld yw gormod o bwyntiau gwefru wedi'u darparu a'r rheiny ddim yn cael eu defnyddio ar y cychwyn felly bydd angen cael cydbwysedd doeth o ran faint i'w darparu ac ym mhle. Bydd gwefru cyrchfan yn un elfen o'r cymysgedd gwefru ac mae gwaith ymchwil yn awgrymu y bydd ymddygiad gwefru Cerbydau Trydan yn wahanol i ddulliau traddodiadol llenwi car gyda phetrol neu ddiesel, sy'n golygu ychwanegu bob yn dipyn yn hytrach na llenwi tanc gwag i'r ymylon mewn un cam. Ychwanegodd Tony drwy ddweud ein bod cydweithio â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dulliau eraill, er mwyn ystyried pa weithgareddau datgarboneiddio trafnidiaeth eraill maen nhw am i TrC eu cefnogi a sut, ac mae'n debygol iawn y bydd hynny'n cynnwys tacsis a bysiau.

**6. Ymgyrch farchnata ar gyfer adfer ar ôl Covid -19**

Cyflwynodd Matt Breese, Rheolwr Brand, Trafnidiaeth Cymru, fanylion yr ymgyrch farchnata ddiweddaraf i annog pobl i ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. Mae'r ymgyrch hon wedi'i llywio gan drafodaethau a gynhaliwyd mewn fforymau rhanddeiliaid blaenorol, a byddai safbwyntiau pellach gan fynychwyr am y cysyniad cyffredinol yn dderbyniol iawn. Awgrymodd Tegryn Jones y byddai cydweithio â phartneriaid twristiaeth yn fuddiol. Atebodd Lewis Brencher fod hynny'n bendant yn rhywbeth yr oedd TrC am ei ddatblygu ymhellach ac y byddai'n cysylltu ag ef y tu allan i'r fforwm. Cadarnhaodd Matt Breese fod partneriaid twristiaeth yn elfen hanfodol o'r cynllun adfer ar ôl covid.

**6. Bae Abertawe a Metro Gorllewin Cymru**

Cyflwynodd Ben George, Rheolwr y Rhaglen Datblygu Strategol, wybodaeth am y cynlluniau ar gyfer y metro arfaethedig sydd ar hyn o bryd yn y cam ymgynghori â'r cyhoedd. Mae'r cynllun yn cynnwys prif linell y De, gwasanaethau a gorsafoedd lleol a metro ardal Bae Abertawe. Mae'r ymgynghoriad ar waith tan 8 Mehefin 2021. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu hefyd ar gyfer rhwydwaith bysiau lleol effeithlon a rhaglen gwasanaethau gwledig ac ategol. Anogwyd aelodau'r fforwm i gwblhau'r ddogfen ymgynghori.

**7. Unrhyw Fater Arall**

Dim

**Camau Gweithredu**

Cofnodwyd y camau gweithredu isod yn ystod y fforwm a byddwn yn mynd i'r afael â nhw cyn y Fforwm Rhanbarthol nesaf lle bynnag y bo'n bosibl.

| Camau Gweithredu | Beth fydd yn cael ei wneud? |
|---|---|
| | |
| | |

## Uchafbwyntiau sgyrsiau digidol y Fforwm

Dyma uchafbwyntiau'r sgwrs yn adnodd sgwrsio'r Fforwm:

Ydym, rydym yn trafod ymddygiad derbyniol ond rydym yn cynnal digwyddiadau tynnu sylw hefyd sy'n canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella'r ymgysylltu rhwng yr heddlu, partneriaid a phobl ifanc. Mae wedi bod yn heriol gydol Covid, yn enwedig gyda digwyddiadau tynnu sylw, ond mae gwaith ar y gweill i fwrw ymlaen â hyn ar draws yr ardal.

Ydym - rydym yn cydweithio ar hyn. Fel y nododd Richard, mae'r fideo diogelwch newydd yn lansio'n ddiweddarach y mis hwn a bydd yn cael ei anfon i bob ysgol a choleg ledled Cymru. Bydd hyn yn gam cychwyn pwysig yn ein hymgyrch a fydd yn parhau wedyn gyda dull sy'n cael ei dargedu mwy, yn ddibynnol ar y materion a godir gan bob sefydliad.

Mae "the Real Social Network" yn ddatganiad cryf a chofiadwy

## Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol Nesaf

Cynhelir Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol nesaf y Canolbarth a'r De-orllewin ym mis Medi 2021